**Y PWYLLGOR MATERION ALLANOL A DEDDFWRIAETH YCHWANEGOL TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – YMCHWILIAD I BERTHYNAS CYMRU AG EWROP A'R BYD YN Y DYFODOL (RHAN 2)**

Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi Rhan 2 o ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaethol Ychwanegol i berthynas Cymru ag Ewrop a'r Byd. Mae Rhan 2 wedi rhoi ffocws newydd i gylch gwaith yr ymchwiliad, felly mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o agwedd bresennol Llywodraeth Cymru tuag at gysylltiadau allanol a'i hymdrechion i dyfu a chynnal ein perthynas â gwledydd eraill yn Ewrop yng ngoleuni'r bleidlais ar Brexit.

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd drwy ddatblygu a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau rhyngwladol, cysylltiadau economaidd, gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a chefnogi busnesau i gyflawni canlyniadau gwirioneddol i bobl Cymru. Mae'n bwysicach nag erioed i feithrin cysylltiadau rhyngwladol er mwyn lliniaru'r effaith economaidd a gaiff yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae amryw o'r materion allweddol sy'n ein hwynebu fel cenedl yn rhai y dylid eu hystyried mewn cyd-destun byd-eang ehangach. Mae'r materion hyn yn cynnwys trechu tlodi, yr effaith a gaiff technoleg ddigidol ar ein bywydau a'n preifatrwydd, efadu trethi, cynhesu byd-eang a heriau amgylcheddol.

Wrth i'r dyddiad ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd agosáu, mae cysylltiadau rhyngwladol yn bwysicach nag erioed. I gydnabod hyn, cafodd ei swydd weinidogol gyntaf ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol ei chreu gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018 er mwyn datblygu'r agenda hon ar yr adeg dyngedfennol hon.

Yn yr ugain mlynedd ers sefydlu llywodraeth ddatganoledig, rydym wedi datblygu perthynas gadarn â chenhedloedd, rhanbarthau a rhwydweithiau eraill ledled Ewrop. Mae'r posibilrwydd y bydd y Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn newid y fframwaith yr ydym yn gweithredu ynddo, ond yr un yw ein huchelgais. Mae hyn yn wir beth bynnag y bo ffurf y bartneriaeth rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol.

**Strategaeth Ryngwladol**

Byddai ymadael â'r UE yn golygu newid radical yn yr amgylchedd masnachu rhyngwladol ac, os ydym am gyflawni ar ran Cymru, byddai angen dull partneriaeth cryfach ar draws Cymru, a fydd yn tynnu ein holl ymdrechion ynghyd.

Dros y misoedd sydd i ddod, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i amlinellu agenda ddeinamig sy'n cefnogi busnesau Cymru ac sy'n tynnu ar yr amrywiaeth sylweddol o asedau sydd gan ein gwlad i hyrwyddo Cymru ar lwyfan rhyngwladol. Penllanw'r gwaith fydd Strategaeth Ryngwladol gynhwysfawr newydd a fydd yn rhoi llais grymus i Gymru yn Ewrop a thu hwnt.

Bydd grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol newydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth, a bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan ymgynghoriad cyhoeddus ehangach. Wrth i'n perthynas â'r UE yn y dyfodol ddod yn gliriach, caiff y strategaeth ei mireinio ymhellach. Gwahoddir y Prif Weinidog a'i Gabinet i roi arweiniad ar y

cydbwysedd a'r pwyslais priodol rhwng y gwahanol weithgareddau yr ydym yn ymgymryd â hwy a sut y'u targedir.

**Swyddfeydd Tramor**

Bydd rhwydwaith swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru o bosibl chwarae rhan bwysig yn ein hagwedd at faterion allanol a chysylltiadau rhyngwladol. Mae ein swyddfeydd yn rhan bwysig o'n gwaith datblygu economaidd rhyngwladol oherwydd maent yn dod o hyd i gyfleoedd mewnfuddsoddi a chwsmeriaid posibl ar gyfer allforwyr o Gymru. Cyflawnir amryw o swyddogaethau gan y rhwydwaith. Mae'n gyfrifol am gymryd rhan yng ngweithgarwch Llywodraeth Cymru yn y meysydd masnachu a buddsoddi, cysylltiadau llywodraeth, twristiaeth, diwylliant ac addysg. Darperir cynrychiolaeth o Gymru mewn lleoliadau pwysig diolch i'n swyddfeydd tramor. Maent yn meithrin a chynnal cysylltiadau, yn hwyluso cyfarfodydd busnes ac yn ymgysylltu'n strategol â swyddi Prydeinig, a lle y bo'n berthnasol Gymry alltud, ar draws y byd.

Darperir cymorth hanfodol ar gyfer ymweliadau tramor Gweinidogol gan y swyddfeydd tramor, ac maent yn darparu rhaglen o weithgarwch ar gyfer gwella enw da Cymru fel lle i fuddsoddi, gwneud busnes, gweithio ac astudio ynddo, yn ogystal â lle i ymweld ag ef.

Bu'r twf mwyaf yn rhwydwaith Llywodraeth Cymru hyd yma yn ystod 2018, gyda swyddfeydd newydd yn agor ym Montréal, Berlin, Doha, Paris a Düsseldorf. Yr heriau, ansicrwydd a'r pwysau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y DU i ymadael â'r UE oedd yn rhannol gyfrifol am y twf hwn. Prif ffocws y swyddfeydd newydd yw dod o hyd i gyfleoedd allforio i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a sicrhau cyfleoedd mewnfuddsoddi. Ysgogir gwaith y swyddfeydd gan gynlluniau busnes sy'n teilwra gweithgarwch yn unol â chryfderau economaidd allweddol Cymru.

**Cymru yn Ewrop**

Mae'r rhesymau pam rydym yn gweithio yn Ewrop a thu hwnt yn amrywio ac yn ategu ei gilydd y naill a'r llall. Mae ein cysylltiadau a phartneriaethau allanol yn helpu ein busnesau i allforio ac yn ein cynorthwyo hefyd i ddenu buddsoddiad, twristiaid a myfyrwyr o wledydd eraill Ewrop.

Mae agenda Cenedlaethau'r Dyfodol, a'n dyhead i fod yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang gyda llais grymus yn Ewrop a thu hwnt, ac a gydnabyddir hefyd am degwch a chynaliadwyedd, yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i fuddsoddi mewn partneriaethau yn Ewrop.

**Rhanbarthau Ewrop sydd â Blaenoriaeth**

Ers datganoli rydym wedi ffurfioli'r berthynas rhwng ein llywodraeth a llywodraethau amryw o ranbarthau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi: ail-lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llydaw; llofnodi cytundebau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Gwlad y Basg a Galicia; a Datganiad o Gyfeillgarwch a

Chydsafiad â Thalaith yr Iseldiroedd, Noord Holland. Mae gennym hefyd drefniant cadarn, a wnaed ers tro, i gydweithredu mewn modd ystyrlon â Fflandrys.

Mae'r rhanbarthau â blaenoriaeth hyn yn bwysig i Gymru o ganlyniad i'n treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyffredin, y gwerthoedd a rennir gennym a'n buddiannau economaidd a chymdeithasol cyffredin. Bydd y strategaeth ryngwladol yn pennu sut ac os y byddant yn llunio rhan o'n ffocws ar gyfer gweithgareddau cydweithredu yn nhermau gweithgarwch llywodraeth ac fel partneriaid ar gyfer prosiectau cydweithredol a gefnogir drwy raglenni Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd neu eraill. Mae pob perthynas yn wahanol, ac felly mae ein hagwedd a'n gweithgareddau presennol yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon.

Mae'r Iwerddon yn bartner pwysig i Gymru yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol. Mae gennym berthynas gydweithredol arbennig o agos drwy'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd sydd wedi cryfhau'r berthynas honno a meithrin ffyniant yn ein cysylltiadau morol yng Nghaergybi, Doc Penfro ac Abergwaun. Mae Llywodraeth Cymru yn aelod sy'n chwarae rhan lawn yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a sefydlwyd o dan Gytundeb Gwener y Groglith, ac mae'n gweithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar draws meysydd o bolisi datganoledig. At hynny, mae Cymru wedi manteisio ar gydweithrediad trawswladol ehangach drwy gymryd rhan yn Rhaglen Ardal yr Iwerydd a Gogledd-orllewin Ewrop INTEREGG. Mae Brexit yn cynnig cyfle i fabwysiadu ffocws newydd a chryfhau'r cysylltiadau hyn ymhellach ac rydym yn falch y bydd Llywodraeth Iwerddon yn sefydlu Swyddfa Conswl yng Nghymru yn 2019 gan gydnabod cryfder y berthynas ddwyochrog.

**Cymryd Rhan mewn Rhwydweithiau Ewropeaidd**

Mae ein cysylltiadau dwyochrog hefyd yn cael eu gyrru gan gyd-aelodaeth o Rwydweithiau Ewropeaidd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydliadau Cymreig eraill, yn aelodau gweithgar o amrywiol rwydweithiau Ewropeaidd gan gynnwys Menter Vanguard ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch a Diwydiannau Seiliedig ar Fio-ddeunyddiau, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR), Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy, a Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Ewrop; y Rhwydwaith Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol, Rhwydwaith Ewropeaidd o'r Rhanbarthau a Bwyd Gourmet (REGAL) a'r grŵp Iechyd Rhanbarthol Ewropeaidd EUREGHA yr ydym ninnau yn ei gadeirio ac sydd wedi'i gyd-leoli yn ein swyddfa ym Mrwsel.

Mae'r rhan a chwaraeir ganddi yn adlewyrchu awydd Cymru i barhau fel cenedl Ewropeaidd sy'n cymryd rhan ddigamsyniol, a rhannu syniadau a diwylliant, cydweithio ar bartneriaethau economaidd ac academaidd, a chefnogi cyfnewid syniadau. Mae'r manteision o gymryd rhan i Gymru yn llawer mwy na'r cyllid y mae'n ei dderbyn yn unig.

Sefydlwyd y Gronfa Bontio Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydliadau Cymreig i barhau i chwarae rhan mewn rhaglenni a rhwydweithiau Ewropeaidd. Bydd yr adnodd hwn, sy'n cael mewnbwn cychwynnol o £50 miliwn o gymorth gan Lywodraeth Cymru, yn ein galluogi i gefnogi sefydliadau Cymreig i gymryd rhan wedi i'r Cyfnod Pontio ddirwyn i ben. Bydd y Llywodraeth yn parhau â'i gwaith i fapio'r gynrychiolaeth o

Gymru mewn rhwydweithiau Ewropeaidd ac mae'n ymchwilio i sut i barhau i gefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i gymryd rhan.

Rydym hefyd yn parhau i ddadlau y dylai'r DU gymryd rhan yn rhaglenni cyllid yr UE gan gynnwys y Rhaglen Fframwaith ar Ymchwil a Datblygu, Erasmus, Ewrop Greadigol a'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd ar ôl Brexit gan mai'r rhain yw'r dulliau sy'n galluogi sefydliadau ac unigolion i gydweithio ar draws ffiniau.

**Rôl Swyddfa Brwsel (sy'n Esblygu)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cymryd rhan lwyddiannus a rhagweithiol ar blatfform Ewropeaidd am dros 18 mlynedd ers iddi agor ei swyddfa ym Mrwsel yn 2000, gan adeiladu ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru cyn hynny. Mae Swyddfa Brwsel wedi bod yn darparu mewnbwn sylweddol i bolisi a phroses ddeddfwriaethol yr UE ers blynyddoedd lawer, drwy weithio fel rhan o Gynrychiolaeth Barhaol y DU ond hefyd drwy ei rhinwedd ei hun, a hynny ar sail y cysylltiadau dwyochrog ac aml-ochrol. Mae'r cysylltiadau a'r ddealltwriaeth o faterion polisi yn darparu sylfaen gadarn a hygred y gall Swyddfa Brwsel esblygu'n gadarnhaol arni er mwyn cadw dylanwad Cymru beth bynnag y bo canlyniad terfynol y negodiadau. Bydd Gweinidogion Cymru ac uwch-swyddogion hefyd yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU yn Llundain i bwysleisio ein hanghenion, hawliau a chyfrifoldebau yn y byd ar ôl Brexit. Byddwn yn ddiwyd wrth fynd ar drywydd y posibiliadau o gael rhagor o gymorth i Gymru a busnesau Cymru oddi wrth adrannau Llywodraeth y DU gan gynnwys yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Bu esblygiad yn ffocws gwaith swyddfa Brwsel ers y refferendwm a bydd hyn yn parhau wrth i berthynas y DU â'r UE esblygu. Gan ragdybio bod bargen yn cael ei tharo, bydd y DU yn parhau i gael perthynas â sefydliadau'r UE eu hunain a chyda cyrff fel Pwyllgor y Rhanbarthau drwy bwyllgorau a strwythurau ar y cyd. Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i'r holl ddulliau posibl a fydd yn hwyluso ymgysylltu llywodraethol neu anlywodraethol â'r UE ar ôl Brexit.

Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan gyda Chyngor Ewrop. Bu ffocws y gwaith hwn, yn bennaf, ynghylch Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop, a lofnodwyd gan y DU yn 2000. Cynrychiolai'r Siarter gam pwysig ymlaen ar gyfer y Gymraeg, oherwydd mae'n amlinellu ystod o egwyddorion cyffredinol a mesurau penodol a gynlluniwyd i hyrwyddo'r cydnabyddiaeth o'r Gymraeg, a defnydd ohoni, a'i chyfraniad at adeiladu Ewrop sy'n amrywiol yn ddiwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd parhau i ymgysylltu â sefydliadau Ewropeaidd, a sefydliadau yn y farchnad ryngwladol ehangach, wedi i'r DU ymadael â'r UE. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos ag adrannau o Lywodraeth y DU sy'n edrych tuag allan yn rhyngwladol fel yr Adran Masnach Ryngwladol a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, yn ogystal â Chynrychiolydd y DU i'r UE, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau'r UE a'r Aelod-wladwriaethau. I sicrhau bod ein gwaith mor effeithiol â phosibl, byddwn hefyd yn ceisio dylanwadau ar strategaethau ymgysylltu Ewropeaidd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad wrth iddynt esblygu a defnyddio'r cyfleoedd a ddaw yn eu sgil.

**Ymgysylltu Mwy â Sefydliadau Rhyngwladol**

Mae ein trefniadau ymgysylltu â sefydliadau rhyngwladol eraill megis Sefydliad Masnach y Byd, Sefydliad Iechyd y Byd, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Banc y Byd y Cenhedloedd Unedig a'i asiantaethau yn cynyddu ac yn dod yn fwyfwy pwysig.

Mae'r sefydliadau hyn yn ffynonellau data ar arferion gorau yn rhyngwladol, cymaryddion, adolygiadau gan gymheiriaid a dadansoddiadau sy'n cael eu bwydo i'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ein polisi. Maent hefyd yn fforymau lle y gall Cymru ddylanwadu drwy godi ein meysydd proffilio mewn meysydd lle'r ydym yn rhagori.

Pan fyddwn yn ymadael â'r UE bydd y DU yn dod yn aelod o Sefydliad Masnach y Byd drwy ei rhinwedd ei hun. Golyga hyn y bydd y DU yn cynrychioli ei hun yn Sefydliad Masnach y Byd, gan fynd i'r afael ag ymholiadau a phryderon gydag aelodau eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod ein rôl gyda Llywodraeth y DU yn nhermau dylanwadu ar farn y DU a bod "yn yr ystafell" ar gyfer materion lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli fel y Pwyllgor ar amaethyddiaeth. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gydymffurfio â rheolau Sefydliad Masnach y Byd yn y dyfodol. Bydd meithrin cysylltiadau cryf gyda Sefydliad Masnach y Byd yn bwysig i Gymru a gweddill y DU.

Ychydig o lenyddiaeth academaidd a pholisi a geir ar y ffyrdd y mae llywodraethau is-genedlaethol mewn gwledydd eraill wedi bod yn rhan o negodiadau ar fasnach ryngwladol. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau â thrydydd gwledydd (a'u rhannau cyfansoddol, lle bo hynny'n briodol) i gael gwybod sut y maent yn gweithredu mewn perthynas â threfniadau o'r fath ar hyn o bryd. Mae Norwy, Gwlad yr Iâ, y Swistir, Canada (a Québec), Awstralia a Seland Newydd oll yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â'r cenadaethau trydydd gwledydd hynod berthnasol hyn dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn enwedig ers y refferendwm, i ymchwilio i weld sut y maent yn gweithredu a byddant yn parhau â'r drafodaeth hon pan ddaw natur y berthynas yn gliriach.

## Casgliadau

Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu her i sicrhau ei bod hithau, a buddiannau Cymru yn ehangach yn parhau'n berthnasol ac yn ddylanwadol os bydd y DU yn ymadael â'r UE. Rhaid inni gynnal cysylltiadau masnachu gyda'n partneriaid masnachu pwysicaf a pharhau i weithio ochr yn ochr â sefydliad y bydd ei gyfeiriad a'i ddewisiadau polisi yn y dyfodol mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd, diogelwch, masnach a rhaglenni cyllid yn parhau i ddylanwadu ar bolisi domestig a chyflawni. Bydd nodi blaenoriaethau clir a phenodol sy'n bwysig i Gymru mewn meysydd fel yr economi, diwylliant, a chysylltiadau'r llywodraeth yn helpu i sicrhau ein bod mor ddylanwadol â phosibl ar draws Ewrop a thu hwnt, a thrwy ddatblygu Strategaeth newydd y cyflawnir hyn.